



JustGo

CYMORTH GYDA GOSOD A GWOBRWYON



SWIM WALES
NOFIO CYMRU



JustGo

SYLFAENOL

Mae Nofio Cymru wedi lansio system aelodaeth newydd sbon i ddod â'r aelodau'n nes nag erioed o'r blaen at y Corff Llywodraethu Cenedlaethol.

Bydd y system aelodaeth JustGo newydd yn symud gwasanaethu aelodaeth i lefel newydd a bydd yn gwella'n fawr iawn ymarferoldeb i'n haelodau ar system Nofio Cymru sydd wedi'i theilwra.

Bydd y manteision ymarferol yn cynnwys mwy o effeithlonrwydd a chyfathrebu gweinyddol, gwell rheolaeth o ddigwyddiadau, taliadau ar lein diogel a gwell cyfathrebu rhwng Clybiau a'u haelodau, yn ogystal â rhwng Clybiau a Nofio Cymru.

Bydd aelodau hefyd yn gallu manteisio ar amrywiaeth o fuddion a gwobrau dewisol Nofio Cymru ar draws siopau'r stryd fawr ac allfeydd ar-lein gwerth dros £500 y flwyddyn!

GOSOD A MEWNGOFNODI

Mewngofnodwch â'r camau hawdd hyn!

Eich Enw Defnyddiwr unigryw yw eich rhif aelodaeth Nofio Cymru

- 1** Ewch i swimwales.justgo.com i ailosod eich cyfrinair er mwyn mewngofnodi.
- 2** Rhowch eich enw defnyddiwr i mewn (rhif aelodaeth Nofio Cymru) a chliciwch 'Anghofio cyfrinair?' Wedyn anfonir e-bost atoch i ofyn i chi ailosod eich cyfrinair. Cofiwch edrych yn eich ffolder sbam os na fydd yn cyrraedd.
- 3** Dilynwch y cyfarwyddiadau ailosod cyfrinair ac ar ôl gorffen ewch yn ôl i swimwales.justgo.com i fewngofnodi.
- 4** Ar ôl i chi fewngofnodi, ewch i Fy Mhroffil ar y bar coch ar ben y dudalen i ddiweddarau eich manylion.
- 5** Ar ôl diweddarau, cliciwch ar Aelodaeth a dewiswch y categori aelodaeth yr hoffech ei brynu.
- 6** Llenwch bob maes, ticiwch os ydych chi eisiau ychwanegu'r pecyn Gwobrau dewisol Nofio Cymru i'ch basged a chliciwch Gorffen.
- 7** Adeg talu, gwiriwch gynnwys eich basged a dewiswch Talu â Cherdyn.
- 8** Rhowch fanylion eich cerdyn a chliciwch Talu i adnewyddu eich aelodaeth flynyddol Clwb Nofio Cymru ar gyfer 2022/23.



Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â swimwales-membership@swimming.org

GWOBRAU NOFIO CYMRU

I ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus, mae Nofio Cymru'n falch o gynnig pecyn unigryw o wobrau i'n haelodau.

Am ddim ond £5 yn fwy, gall aelodau ddatgloi arbedion sy'n werth dros £500 y flwyddyn gan rai o'r siopau ar lein a stryd fawr gorau oll..

Wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar bob cartref, a chynnydd mewn prisiau'n effeithio ein bywydau beunyddiol, rydyn ni'n falch o allu rhoi arbedion gyda Gwobrau Nofio Cymru.

Felly beth am wneud yn fawr o'r arbedion go iawn hyn ar wariant allweddol y cartref, gan gynnwys:

- Nwyddau cyffredinol a bwyd, ffasiwn, gwella'r cartref, technoleg, adloniant, bwyta mas, dillad ac offer chwaraeon, garddio, DIY a llawer mwy
- Arbedion ar siop a nwyddau Nofio Cymru (ac eithrio nwyddau digwyddiadau)

Y tu hwnt i'r manteision a'r arbedion newydd hyn, bydd ein haelodau, fel erioed, yn cael mynediad i ystod eang o adnoddau a chefnogaeth werthfawr gan Nofio Cymru gan gynnwys:

- Mynediad i gyrsiau hyfforddi a datblygu
- Mynediad i dîm Nofio Cymru am gefnogaeth gan gynnwys llywodraethiant, llesiant ac arfer dda.



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

REWARDS